CYNGOR BRO MORGANNWG

## GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH

# CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2024-2025



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# RHAGAIR

Bydd y flwyddyn nesaf yn un heriol eto. Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac yn cydnabod cryfder ein cymunedau a'r angen i gydweithio os ydym am gyflawni'r canlyniadau gorau. Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol hwn ar gyfer 2024-25 yn dangos ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth, i weithio gyda chymunedau lleol, i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau o ran newid hinsawdd a natur.

Mae'r CCB yn nodi ein bwriadau ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae'n alwad i weithredu dros yr angen i weithio mewn partneriaeth ar draws y Cyngor a chyda'n partneriaid gan mai dim ond trwy gydweithio a thrwy wneud pethau'n wahanol y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar bobl gennym ni.

Mae'r Cyngor, fel llawer o'r sector cyhoeddus, yn wynebu pwysau sylweddol ar ei gyllideb. Mae'r pwysau ar ein cyllidebau gofal cymdeithasol ac addysg yn eithriadol o heriol. Mae hyn yn golygu bod angen i ni adolygu'r hyn a wnawn yn fwy nag erioed, a sut rydym yn ei wneud, a thrawsnewid y ffordd rydym yn gweithio.



"Bydd yn golygu gwneud penderfyniadau anodd, yn enwedig gan ein bod yn deall yr effaith y gallai rhai o'r rhain ei chael ar ein cymunedau. Wrth ddatblygu'r CCB hwn a'r gyllideb ar gyfer 2024-25 rydym yn adolygu rhai o'n rhaglenni gwaith, ac yn gwneud penderfyniadau anodd ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni a lle y gellir gwneud arbedion. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y gall y Cyngor ddarparu rhai gwasanaethau a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol."

Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.
A copy of this plan is available in English.



Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer 2024-25 rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r effaith ar breswylwyr a'n partneriaid - mae angen i ni gymryd ymagwedd hirdymor a chyfannol o hyd, hyd yn oed wrth wynebu pwysau uniongyrchol. Egwyddorion pennaf Strategaeth Ariannol y Cyngor o hyd yw cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Cynllun Corfforaethol 2020-25 a diogelu gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen gwasanaethau cyhoeddus cryf a chynaliadwy, sy'n cefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed, yn cadw pobl yn ddiogel ac yn mynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau o fewn cymdeithas.

Mae gennym gyfrifoldeb i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau sydd bwysicaf i'n preswylwyr a dyna pam y gwnaethom lansio 'Beth Am Siarad', ein harolwg am fywyd yn y Fro, yr hydref hwn. Rydym hefyd yn parhau â'n gweithgareddau mapio cymunedol a chreu lleoedd ar draws ein trefi ac rydym hefyd yn ymgysylltu â rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Bydd y gweithgareddau hyn yn parhau i lunio ein blaenoriaethau ac maent wedi llywio ein cynlluniau ar gyfer 2024-25. Rydym yn gwybod bod angen i ni wrando ar ein preswylwyr a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyrraedd y safon orau y gallwn ei chyflawni. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys ein cymunedau a chymryd yr amser i esbonio'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud.

Yn CCB 2023-24 fe wnaethom amlinellu tair her hanfodol. Rydym wedi cadw'r rhain ar gyfer 2024-25 ond gyda mwy o bwyslais ar yr argyfwng natur, sy'n cyd-fynd yn agos â chyflawni Prosiect Sero, ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd. Rydym hefyd bellach wedi cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan allweddol o'n her gwydnwch sefydliadol gan gydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol yn hanfodol i lywio ein gweithgareddau yn y dyfodol. Mae ein tair her allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod i'w gweld isod. Mae gwaith i gwrdd â'r heriau hyn yn torri ar draws pob un o bedwar Amcan Lles y Cyngor sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd a'r CCB. Ein heriau allweddol yw:

- **Gwydnwch Sefydliadol** (ein pobl, ein cyllid, ein hasedau ac ymgysylltu â'r cyhoedd) - gwrando ar yr hyn ddywed ein trigolion wrthym ac addasu ein gwasanaethau a sut y cânt eu darparu mewn ymateb i flaenoriaethau lleol, pwysau ariannol a heriau'r gweithlu.
- **Argyfwng Costau Byw** - cefnogi ein trigolion, sefydliadau a busnesau lleol yn wyneb costau cynyddol yn enwedig o ran ynni, bwyd a thai.
- **Argyfyngau Hinsawdd a Natur** - ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Her Hinsawdd.

Er gwaethaf yr heriau niferus, rydym yn Gyngor sydd ag uchelgais. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau gan gynnwys dod yn sir noddfa, derbyn Statws Oed-Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd, cael cyllid sylweddol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau adfywio, cynnal rhai o'r ysgolion gorau yng Nghymru a chynnal ein cyfraddau ailgylchu uchel. Ond, rydym hefyd yn gwybod bod gennym lawer i'w wneud a byddwn yn parhau i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair ac i ddangos i'n trigolion ein bod ni'n gwrando ac yn clywed eu lleisiau wrth i ni weithio gyda'n gilydd.



**Y Cynghorydd Lis Burnett**
*Arweinydd y Cyngor*



# CYFLWYNIAD

## Dyma'r pumed Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) - a'r un olaf - ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2020-2025 y Cyngor, *Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach.*

**Mae'r ymrwymiadau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol yn rhai hirdymor a bob blwyddyn rydym yn nodi mewn CCB y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r ymrwymiadau hynny. Mae hyn yn helpu i ddangos ein cynnydd a'n ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn 2024-25 a sut y byddwn yn ymateb i'r heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd dros y flwyddyn i ddod yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein pedwar Amcan Lles.  Mae ein cynlluniau wedi'u siapio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gallwch ddarllen mwy am hyn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r Amcanion hefyd yn creu'r fframwaith i ddangos sut y byddwn yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn adrodd ar ein cynnydd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn dod ag amrywiaeth o weithgareddau ledled y Cyngor at ei gilydd. Ceir gwybodaeth fanylach am waith gwasanaethau unigol yn y cynlluniau gwasanaeth cynhwysfawr, sy'n cael eu cynhyrchu gan bob gwasanaeth Cyngor. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi'r manylion am sut olwg fydd ar wasanaethau yn 2024/25 ac mae'r cynlluniau gwasanaeth ynghyd â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn darparu'r fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau dros y cyfnod o 12 mis gan adlewyrchu maint ac amrywiaeth y gwasanaethau. Yn cyd-fynd â'r cynlluniau hyn mae ystod o fesurau perfformiad sy'n cael eu monitro, eu hadrodd a'u cyhoeddi drwy'r flwyddyn er mwyn helpu i olrhain pa mor dda yr ydym yn perfformio yn erbyn ein Hamcanion Llesiant a'n gweithredoedd cysylltiedig.






### Ein pedwar Amcan Lles yw:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd




# DATBLYGU'R
# CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL

Wrth ddatblygu'r cynllun cyflawni hwn ar gyfer 2024-25, rydym wedi adolygu ein pedwar Amcan Lles sy'n parhau i fod yn berthnasol ac yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer ein gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Rydym wedi myfyrio ar yr ymrwymiadau yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25 a'r cynnydd hyd yma, rydym wedi ystyried yr heriau sydd o'n blaenau, ac rydym wedi gwrando ar yr hyn y mae ein trigolion yn ei ddweud wrthym. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn herio'r hyn a wnawn, ein bod yn fwy arloesol a'n bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'n preswylwyr, gan gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol ar yr un pryd.**

Mae'r camau gweithredu a nodir yn y CCB eleni wedi'u llywio gan yr hyn y mae trigolion, partneriaid, aelodau etholedig a staff wedi'i ddweud wrthym drwy wahanol weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r canlyniadau cychwynnol o'r arolwg preswylwyr Beth Am Siarad a gynhaliwyd yn hydref 2023 yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r Cyngor wneud mwy i ddangos gwerth am arian, bod angen iddo ddangos yn gliriach sut mae barn trigolion yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau a sut mae'n gweithredu er budd gorau preswylwyr. Amlygodd canlyniadau'r arolwg hefyd fod preswylwyr yn pryderu ac yn teimlo effeithiau'r argyfwng costau byw, bod pryderon am dai a thrafnidiaeth yn ogystal â gwasanaethau i breswylwyr hŷn a phlant a phobl ifanc. Mae trigolion hefyd yn poeni am newid





hinsawdd a natur ac yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd lleol. Dangosodd y canlyniadau hefyd yr angen i gyfathrebu mwy am waith y Cyngor ac am effeithiau yr hyn a wnawn.

Adlewyrchir y rhain yn ein heriau allweddol ac yn y gweithgareddau a nodir yn y CCB ar draws pob un o'r pedwar Amcan Lles.

Mae'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y CCB hefyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor i wneud mwy i ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid eraill a gwrando arnynt. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith ar greu lleoedd a mapio cymunedol, darparu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a gweithio gyda sectorau eraill gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a'r Trydydd Sector.

Mae camau gweithredu ar draws y CCB hefyd wedi'u datblygu mewn ymateb i'r meysydd y mae preswylwyr wedi tynnu sylw atynt fel y rhai pwysicaf, ac mae hyn yn cynnwys gofal cymdeithasol, tai, cymdogaethau glân, gwastraff ac ailgylchu yn ogystal â'r amgylchedd naturiol. Mae rhai o'r camau gweithredu yn y cynllun yn gyffredinol ac yn berthnasol i bawb ond mae eraill wedi'u targedu'n fwy lle mae anghenion penodol y mae'n rhaid i ni ymateb iddynt.

Gellir disgrifio rhai o'r camau gweithredu o fewn y cynllun fel 'busnes fel arfer' ond gyda llawer o'r rhain rydym yn ceisio bod yn fwy arloesol, i ddatblygu dulliau newydd a bod yn fwy creadigol yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae hyn i gyd yn rhan o'n rhaglen waith i drawsnewid ein gwasanaethau ac i ymateb i'r heriau ariannol rydym yn eu hwynebu.

Mae'r camau gweithredu hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau gwaith ein rheoleiddwyr, y wybodaeth yn ein Hadroddiad Hunanasesu Blynyddol 2022/23 a pherfformiad y Cyngor yn y cyd-destun cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac mae Amcanion Lles y Cyngor yn cyd-fynd ag Amcanion Lles newydd y BGC. Bydd gweithgareddau y manylir arnynt yn y Cynllun hwn yn cyfrannu at Gynllun Lles newydd y BGC a hefyd yn adlewyrchu ein gwaith mewn partneriaeth ar iechyd a gofal cymdeithasol drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh).

Rydym yn parhau i ymwreiddio'r pum ffordd o weithio (cynnwys, cydweithredu, atal, hirdymor ac integreiddio) ym mhopeth a wnawn ac maent yn parhau'n rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r CCB.  Rydym yn hyderus y bydd y camau gweithredu a nodwn nid yn unig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein hamcanion lles ond y byddant hefyd yn cyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol ac yn adlewyrchu ein rôl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Fodd bynnag, rydym wedi ehangu cwmpas ein Her Gwydnwch Sefydliadol i gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar waith i ymateb i'r argyfwng natur yn ogystal â newid yn yr hinsawdd ar draws y Cynllun. Bydd yr heriau hyn yn siapio llawer o'n gweithgarwch yn y flwyddyn i ddod ac mae llawer o'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun yn rhan o'r ymdrech ar y cyd i ymateb i'r heriau hyn.










"Rydym wedi adolygu'r heriau critigol a nodwyd yn 2023-24 a daethom i'r casgliad fod y rhain yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cefnogir hyn hefyd gan ganlyniadau ein harolwg Beth Am Siarad."

### Ein Heriau Allweddol yw:

- **Gwydnwch Sefydliadol** *(ein pobl, ein cyllid, ein hasedau ac ymgysylltu â'r cyhoedd)* - gwrando ar yr hyn ddywed ein trigolion wrthym ac addasu ein gwasanaethau a sut y cânt eu darparu mewn ymateb i flaenoriaethau lleol, pwysau ariannol a heriau'r gweithlu.
- **Argyfwng Costau Byw** - cefnogi ein trigolion, sefydliadau a busnesau lleol yn wyneb costau cynyddol yn enwedig o ran ynni, bwyd a thai.
- **Argyfyngau Hinsawdd a Natur** - ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Her Hinsawdd.

Yn y Cynllun hwn, rydym wedi manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd i wireddu ein hamcanion a'n gweledigaeth o greu Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair. Bydd llawer o'n gweithredoedd yn cyfrannu at sawl Amcan ac yn cynnwys nifer o wasanaethau sy'n adlewyrchu ein ffordd integredig o weithio. Mae ein cynnydd yn cael ei fanylu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol.




# EIN HERIAU ALLWEDDOL

Isod ceir mwy o wybodaeth am ein heriau allweddol, pam fod y rhain yn heriau mor arwyddocaol ar gyfer y flwyddyn i ddod, yr hyn y byddwn yn ei wneud, sut rydym wedi ymwreiddio'r pum ffordd o weithio yn ein hymateb i'r heriau hyn, a sut mae'r gwaith yn cysylltu'n ôl â'n Hamcanion Lles.



## **Her Allweddol 1:** Gwydnwch Sefydliadol (ein cyllid, pobl ac asedau)

> "Sicrhau y gallwn barhau i addasu yn wyneb heriau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf y pwysau ariannol a heriau'r gweithlu sy'n ein hwynebu ni a nifer o'n sefydliadau partner."

### Pam fod hyn yn her?

Bydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn dod hyd yn oed yn fwy heriol nag yn y gorffennol agos, ac ar yr un pryd ceir galw cynyddol am wasanaethau ac angen i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae'r Cyngor yn agored iawn i bwysau costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant, gan gynnwys cost gynyddol deunyddiau adeiladu, costau ynni a chyflogau staff ac mae hyn oll yn cael effaith ar gostau darparu gwasanaethau. Bydd angen i ni fynd i'r afael â nifer o bwysau cost gan gynnwys diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy a nifer gynyddol o blant a phobl ifanc ag anghenion lles meddyliol ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, yn ogystal â nifer gynyddol o blant y mae angen gofal arnynt mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn wynebu llawer o heriau gweithlu ar draws ystod o wasanaethau yn unol â'r darlun cenedlaethol ac mae angen i ni ddarparu cynnig cystadleuol er mwyn recriwtio a chadw pobl. Mae cyflawni'r CCB hwn yn dibynnu ar wytnwch y sefydliad a'i allu i gwrdd â heriau lluosog. Er mwyn ysgwyddo'r pwysau hyn a chynllunio ar gyfer y dyfodol, rydym yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â'n preswylwyr, i esbonio'r pwysau sy'n ein hwynebu a cheisio eu barn ar flaenoriaethau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd y gwasanaethau a ddarparwn a'r ffordd rydym yn eu darparu yn cael eu llywio gan farn trigolion lleol.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Byddwn yn adolygu hyfywedd a chynaliadwyedd gwasanaethau mewn ymateb i heriau ariannol ac ansicrwydd sylweddol parhaus. Byddwn yn defnyddio ein hasedau'n fwy effeithlon, gan edrych yn benodol ar bortffolio eiddo'r Cyngor, byddwn yn gwthio ein hagenda ddigidol ymlaen ac yn datblygu a chefnogi ein gweithlu. Bydd angen i ni ddefnyddio llawer o ddulliau gweithredu amrywiol, gan weithio gyda phartneriaid ar draws pob sector i gynyddu ein gwydnwch a chyflawni ein blaenoriaethau. Drwy gynyddu ein gwydnwch, gallwn barhau â Phrosiect Sero a gallwn gefnogi ein preswylwyr drwy'r argyfwng costau byw. Mae adborth trwy'r arolwg Beth am Siarad yn ddiweddar wedi dweud wrthym fod angen i ni wella sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phreswylwyr a byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i wneud hyn a fydd yn ein gwneud yn gryfach ac yn fwy gwydn.

### Sut mae ein hymateb yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio?

Mae cryfhau ein gwydnwch fel sefydliad yn golygu bod angen i ni gynllunio ar gyfer yr hirdymor er gwaethaf natur fyrdymor mwyafrif ein cyllid. Mae angen i ni ddefnyddio dull mwy ataliol ac adeiladu ar y partneriaethau cryf sydd eisoes ar waith er enghraifft, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae integreiddio hefyd yn allweddol gan fod angen i ni sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau anodd rydyn ni'n eu gwneud yn cael effaith fwy negyddol ar wasanaethau eraill. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ystod eang o bobl yn cymryd rhan ac yn cael y cyfle i ddylanwadu ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud a bod eu gwybodaeth, eu profiad a'u mewnwelediad yn llywio'r ffordd ymlaen. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth a gwrando ar amrywiaeth o leisiau y bydd modd cael newid effeithiol a mwy o wydnwch. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion amrywiol ein cymunedau.

### At ba Amcanion y mae'n cyfrannu?

Mae gwella ein gwydnwch sefydliadol yn allweddol i gyflawni ein pedwar Amcan Lles a'n gweledigaeth ar gyfer Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair.

## **Her Allweddol 2:** Argyfwng Costau Byw

> "Cefnogi ein trigolion, sefydliadau a busnesau lleol yn wyneb costau cynyddol yn enwedig o ran ynni, bwyd a thai."

### Pam fod hyn yn her?

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i roi pwysau ariannol ar aelwydydd. Mae canfyddiadau cychwynnol yr arolwg preswylwyr Beth Am Siarad yn dangos bod hyn yn parhau i fod yn bryder i breswylwyr. Bydd angen i ni gefnogi pobl i ymdopi â'r argyfwng hwn a goresgyn ei effeithiau gwaethaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu ein dinasyddion mwyaf difreintiedig ac agored i niwed.  Mae lles ein preswylwyr, ein cymunedau a'n staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o set ehangach o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bydd y Cyngor yn adeiladu ar ei wasanaethau presennol ac yn gweithio gyda phartneriaid i roi cymorth. Byddwn yn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan gynnwys drwy waith gydag ysgolion, amrywiaeth o fentrau cymunedol a gweinyddu cynlluniau cyllido. Byddwn yn rhoi cyngor, cefnogaeth, atgyfeiriadau a gwybodaeth i breswylwyr a'n gweithwyr ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyledion, tlodi tanwydd a chostau ynni, budd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant a'u lles. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i leihau digartrefedd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwella mynediad at fwyd







a hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer chwarae a hamdden. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n cymunedau â'r amddifadedd mwyaf fel rhan o waith y BGC i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi.

### Sut mae ein hymateb yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio?

Byddwn yn gweithio ar y cyd i gefnogi ein preswylwyr a chydgysylltu gwasanaethau o fewn y Cyngor a'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ehangach.  Byddwn yn cynnwys pobl yn yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl hynny sydd angen ein cymorth fwyaf. Drwy'r BGC byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar rai o'r materion tymor hwy yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn canolbwyntio ar weithgareddau atal gyda'n cydweithwyr iechyd fel rhan o'r rhaglen waith Cynyddu Gwaith Atal.

### At ba Amcanion y mae'n cyfrannu?

Wrth ateb yr her hon, byddwn yn cymryd camau sy'n cyfrannu at bob un o'n pedwar Amcan Lles a'r holl Nodau Lles cenedlaethol. Byddwn yn cynnwys y gymuned, yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a dysgu, gan gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a sicrhau ein bod yn dal i ddiogelu ein hamgylchedd hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol hwn.



## **Her Allweddol 3:**
## Argyfyngau Hinsawdd a Natur

> “Ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur a chyflawni’r ymrwymiadau yn ein Cynllun Her Hinsawdd.”

### Pam fod hyn yn her?

Yn 2019 cyhoeddodd Cyngor Bro Morgannwg argyfwng hinsawdd ac yn 2021 fe wnaethom hefyd ddatgan argyfwng natur. Mae ein gwaith newid hinsawdd wedi’i ddwyn ynghyd ar ffurf Prosiect Sero a byddwn yn parhau i weithio gyda’r gymuned a’n partneriaid gan gynnwys y Bartneriaeth Natur Leol i wneud y newidiadau angenrheidiol. Un o’n prif dargedau yw lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030 ond rydym hefyd am ddylanwadu ar eraill a’u hannog i leihau eu hallyriadau a meddwl mwy am effaith eu gweithgareddau ar ein hadnoddau naturiol. Rydym hefyd yn cydnabod faint mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at ein lles corfforol a meddyliol.

### Beth fyddwn ni’n ei wneud?

Mae gwaith i fynd i’r afael â’r her hon yn cynnwys adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol a datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Blaengynllun Bioamrywiaeth newydd. Mae hefyd yn cynnwys gwelliannau i’n tai, ein hysgolion a’n hadeiladau eraill, hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a ffocws ar gaffael, ynni ac ymgysylltu cymunedol a Strategaeth Ddigidol newydd i’r Cyngor.

### Sut mae ein hymateb yn adlewyrchu’r pum ffordd o weithio?

Fel rhan o’n gwaith newid hinsawdd, byddwn yn gweithio gydag ystod o grwpiau i sicrhau’r newidiadau angenrheidiol. Mae Cynllun Lles newydd y BGC hefyd yn amlygu newid yn yr hinsawdd a’r argyfwng natur fel prif flaenoriaethau a byddwn yn gweithio gyda’n partneriaid i wneud gwahaniaeth gyda’n gilydd. Mae angen i ni ystyried yr effaith y bydd ein gweithredoedd a’n penderfyniadau yn ei chael ar yr amgylchedd a sicrhau bod ein polisïau a’n strategaethau yn cefnogi’r meddylfryd mwy hirdymor hwn. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid integreiddio ystyriaethau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn, ac mae gwaith sylweddol wedi’i wneud o ran y cysylltiadau rhwng ein hamgylchedd a’n lles.

### At ba Amcanion y mae’n cyfrannu?

Mae’r her hon yn arbennig o berthnasol i Amcan Pedwar ond mae’n berthnasol i bob un o’n Hamcanion Lles. Bydd gwaith yn cynnwys annog newid ymddygiad ar lefel unigol a sefydliadol.





# DOD Â'R CYFAN AT EI GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH

Er mwyn helpu i ddeall yn well sut mae ein gwaith yn cael ei integreiddio, rydym wedi amlygu gwaith sy'n gysylltiedig ag addysg a sgiliau.

Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraniad pwysig y mae ein hysgolion yn ei wneud at wireddu ein Hamcanion Lles a'n helpu i ymateb i'r heriau niferus sy'n ein hwynebu. Mae ein hysgolion yn rhan bwysig o'r sefydliad o ran y gweithlu a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu i ddisgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae ysgolion yn cynhyrchu eu cynlluniau lleol eu hunain i nodi eu blaenoriaethau a'u maes ffocws ac mae'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Cyflawni Blynyddol.

O fewn yr arena addysg a sgiliau, gallwn weld sut y bydd ymrwymiadau perthnasol ar draws ein holl Amcanion Lles yn ein helpu i ymateb i'r heriau allweddol a nodwyd. Mae ysgolion yn parhau i fod ar flaen y gad o ran gwaith sy'n cael ei wneud mewn ymateb i'r anawsterau y mae llawer o bobl yn eu profi oherwydd yr argyfwng costau byw ac yn gweithio yng nghalon ein cymunedau i fynd i'r afael â thlodi. Mae nifer o ysgolion bellach yn rhedeg Bocs Bwyd Mawr a phrosiectau bwyd a chynghori eraill, gan gysylltu â phartneriaid fel Cyngor ar Bopeth ac eraill. Mae'r dull Ysgolion Bro wedi'i adeiladu o amgylch ymagwedd teulu cyfan ac mae'n cynnig y potensial i uno ac ailddychmygu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion teuluoedd a disgyblion yr ardal. Bydd y gwaith sydd wedi dechrau integreiddio gwasanaethau eraill o fewn rhai o'n hysgolion yn parhau ac yn cyflymu yn y flwyddyn i ddod. Mae buddsoddiad parhaus yn ein hysgolion a gweithio gyda phobl ifanc yn elfen allweddol o Brosiect Sero ac, yn unol â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ein nod yw i ysgolion fod yn adeiladau carbon isel, a di-garbon yn ddelfrydol, lle bynnag y bo modd. Rydym am adeiladu ar y sgyrsiau rydyn ni'n eu cael gyda'n pobl ifanc drwy'r Cyngor Ieuenctid a'n hysgolion i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr, cefnogi iechyd meddwl a lles a hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol. Byddwn hefyd yn archwilio modelau cyflenwi gwasanaethau newydd i fynd i'r afael â'r heriau cyllidebol cymhleth sy'n wynebu ein hysgolion. Byddwn hefyd yn parhau i annog a chefnogi prentisiaethau, datblygiad sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl o bob oed gan sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n iawn iddyn nhw. Bydd ysgolion hefyd yn elwa o'r gwaith a wneir fel rhan o Gynllun Gweithlu a Strategaeth Lles Staff y Cyngor, a'n Strategaeth Ddigidol newydd.

Mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn dangos y gwaith sylweddol a wnaed gyda a chan ein hysgolion a'u rôl wrth gyflawni ein Hamcanion Lles ac ateb ein heriau allweddol.

# CYFLAWNI EIN HAMCANION

## Drwy weithio Gyda'n Gilydd. Mae cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid ar draws gwahanol sectorau a'r gymuned yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni'r ymrwymiadau yn y CCB yn llwyddiannus.

Mae gennym bartneriaethau cryf yn rhanbarthol ac yn lleol ac yn y Fro rydym yn ffodus i gael trydydd sector sefydledig a gwerthfawr iawn. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y nifer fawr o Gynghorau Tref a Chymuned sy'n darparu ystod o wasanaethau ac yn hyrwyddo anghenion lleol. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r perthnasoedd hyn ac yn archwilio sut yr ydym, gyda'n gilydd, yn cynnal gwasanaethau lleol, ac yn cael mynediad at adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i ddarparu'r gorau i'n trigolion.

Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y deuddeg mis nesaf i gyflawni ein Hamcanion. Nid yw'r Amcanion a'r gweithredoedd yn nhrefn eu pwysigrwydd neu'r drefn y cânt eu cyflawni a, gyda'i gilydd, maent yn ffurfio rhaglen weithredu sy'n adlewyrchu'r heriau allweddol a nodir uchod, pwysigrwydd amddiffyn a chefnogi ein preswylwyr mwyaf agored i niwed, a'n cyfrifoldebau statudol. Wrth gyflawni'r CCB hwn, byddwn yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau i hyrwyddo lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol a phwysigrwydd lles corfforol a meddyliol ein preswylwyr a'n gweithwyr.

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y CCB yn dangos yr ystod o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, rhai ohonynt yn gyffredinol ac eraill wedi'u targedu'n fwy penodol at y rhai mewn angen. Byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl a darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym gan gynnwys cyllid grant. Byddwn yn ystyried sut y gall technoleg helpu i drawsnewid ein gwasanaethau tra'n sicrhau ein bod yn aros yn agos at ein trigolion, bod ein gwasanaethau'n hygyrch a bod gan ein trigolion lais. Cynhelir yr holl weithgareddau yn unol â gwerthoedd y Cyngor fel y nodir isod a byddwn yn sicrhau nad yw'r camau gweithredu a gymerwn nawr yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain ond yn hytrach yn creu etifeddiaeth gadarnhaol.









**UCHELGAIS** – Meddwl yn flaengar, croesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

**AGORED** – Bod yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.

**CYDWEITHIO** – Fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon.

**BALCHDER** – Rydyn ni'n ymfalchïo ym Mro Morgannwg, ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.



# AMCAN 1

## GWEITHIO GYDA A THROS EIN CYMUNEDAU

### YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Gwella sut yr ydym yn cynnwys pobl eraill ac yn ymgysylltu a chyfathrebu â nhw o ran ein gwaith a'n penderfyniadau
- Gweithio'n arloesol gan ddefnyddio technoleg, adnoddau a'n hasedau i drawsnewid ein gwasanaethau fel eu bod yn gynaliadwy i'r dyfodol
- Datblygu ein diwylliant cryf o wasanaeth cwsmeriaid da gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor o fod yn uchelgeisiol, agored, ynghyd a balch
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a gweithio gyda'r gymuned i sicrhau ein bod yn ymatebol i anghenion amrywiol ein cwsmeriaid
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwr Cymraeg erbyn 2050
- Cefnogi datblygiad a lles ein staff a chydnabod eu cyfraniad at waith y Cyngor
- Sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu a chraffu ar waith a chefnogi ein haelodau etholedig i gyflawni eu rolau

> "Rydym yn gyngor modern a blaengar sy'n croesawu arloesi ac yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion ein trigolion a chymunedau lleol. Rydym wedi ymrwymo i fodloni anghenion y genhedlaeth hon ac i adael etifeddiaeth gadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol."






**1** Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd gan gynnwys defnyddio creu lleoedd i wella'r ffordd rydym yn cynnwys, cyfathrebu ac ymgynghori â phobl a sicrhau bod dinasyddion yn cael cyfle i leisio eu barn.

**6** Datblygu'r Strategaeth Ddigidol newydd a rhoi profiad mwy cadarnhaol i gwsmeriaid trwy ymgorffori dulliau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr o ddylunio gwasanaethau, gan wella hygyrchedd ac ymatebolrwydd.

**11** Datblygu ein trefniadau partneriaeth newydd ar gyfer caffael gyda phwyslais cynyddol ar werth cymdeithasol a newid hinsawdd.





# YN 2024/25 BYDDWN YN:

**2** Gwella'r ffordd rydym yn darparu gwybodaeth am ein gwaith a'r effaith rydym yn ei chael gan ddefnyddio dulliau gwahanol sy'n cyrraedd pobl mewn modd amserol sy'n diwallu eu hanghenion.

**3** Datblygu cynlluniau creu lleoedd yn y Barri, Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth gan roi anghenion canol trefi a chymunedau'r dyfodol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a gwneud y mwyaf o effaith amrywiaeth o ffrydiau cyllido.

**4** Datblygu Cynllun Corfforaethol pum mlynedd **newydd ar gyfer 2025-2030** yn dangos sut y bydd cam nesaf Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor yn trawsnewid ein gwaith i ddiwallu anghenion y dyfodol.

**5** Ymgysylltu a chryfhau ein perthynas gyda'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a chynghorau tref a chymuned i helpu i siapio a chyflawni blaenoriaethau lleol, gan gynnwys adolygiad o Siarter y Cyngor Tref a Chymuned a'r Compact Sector Gwirfoddol.

**7** Cyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan adlewyrchu'r Cynllun LHDTC+ a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a gwaith anabledd sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru.

**8** Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chyflawni ein Cynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn fel rhan o'n gwaith i ddod yn gymuned sy'n dda i bobl hŷn lle mae pawb yn y Fro yn cael cyfle i heneiddio'n dda.

**9** Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor a'r gymuned a chefnogi dwyieithrwydd drwy gyflawni Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

**10** Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni Cynllun Cyflawni'r Lluoedd Arfog 2024-25 i gryfhau cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog yn unol ag e gwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog.

**12** Darparu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 a chynllun ariannol tymor canolig cynaliadwy sy'n cydnabod y pwysau ariannol cynyddol (refeniw a chyfalaf) ar y Cyngor, yn enwedig ym maes addysg a gofal cymdeithasol, a'r angen i wneud y mwyaf o'n defnydd o gyllid allanol.

**13** Adolygu dyfodol ein hasedau adeiledig a thir gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o'u buddion economaidd a chymunedol a sicrhau bod y model perchnogaeth a darparu gwasanaeth mwyaf priodol ar waith.

**14** Mabwysiadu model newydd o weithio i reoli adeiladau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, cydymffurfiaeth ac effeithlonrwydd.

**15** Cyflwyno ein Strategaeth Pobl gan gynnwys gwaith ar les staff i wella recriwtio, cadw a lles ar draws y sefydliad, gyda ffocws penodol ar waith gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a denu a chadw gweithlu iau a mwy amrywiol.

**16** Cynyddu dealltwriaeth o rôl aelodau etholedig a phwyllgorau craffu trwy gyflawni'r cynllun gweithredu craffu, gwaith hyrwyddwyr aelodau a Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.



# AMCAN 2

## CEFNOGI DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

### YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Sicrhau bod mynediad priodol at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, meithrin ac addysg o safon gan alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau gorau posibl beth bynnag fo'u hoedran
- Buddsoddi yn ein hysgolion i greu'r amgylchedd dysgu cywir i'r 21ain ganrif a chyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned ehangach
- Gweithio gydag ysgolion, teuluoedd ac eraill i wella'r gwasanaethau a chymorth i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Gweithio gydag addysg, darparwyr hyfforddiant, busnesau ac asiantaethau eraill i roi ystod o gyngor, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant sy'n gwella sgiliau pobl a'u parodrwydd at waith
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y gall pobl gael gafael ar gyngor a gwybodaeth ariannol a chymorth ar ddyledion sy'n ymwneud â thai, budd-daliadau, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Cefnogi a hyrwyddo gwirfoddoli a dysgu cymunedol gan gydnabod ystod y buddion i unigolion a'r gymuned
- Gweithio'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynllunio strategol a mentrau trafnidiaeth a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth
- Cefnogi twf economaidd trwy adfywio, seilwaith gwell a chymorth i ganol trefi, twristiaeth a diwydiant

> "Rydym yn Gyngor sy'n deall pwysigrwydd poblogaeth addysgedig a medrus gan helpu pobl o bob oed i ddatblygu a dysgu. Rydym wedi ymrwymo i annog dyheadau pobl a sicrhau bod unigolion a chymunedau'n gallu ffynnu a chyflawni eu gorau."

**1** Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid eraill i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n effeithiol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob dysgwr.

**6** Datblygu rhaglen buddsoddi mewn ysgolion newydd a bwrw ymlaen i ehangu Ysgol y Deri, ac adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg a Sant Richard Gwyn fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.







# YN 2024/25 BYDDWN YN:

**2** Gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid ac archwilio modelau darparu gwasanaeth newydd i fynd i'r afael â heriau cyllidebol a'r galw a chymhlethdod cynyddol lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc ar lefelau cynradd ac uwchradd.

**3** Cefnogi ein hysgolion i hwyluso'r broses o weithredu'r diwygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fesul cam gan gynnwys gwaith o amgylch hunanwerthuso.

**4** Gweithio gyda'n partneriaid i gyrraedd y disgyblion hynny sydd wedi ymddieithrio a chefnogi ein hysgolion i leihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb ac ymgysylltiad.

**5** Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion cost ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth ysgol, gan hyrwyddo'r defnydd o opsiynau teithio llesol a chynaliadwy eraill lle bo hynny'n ymarferol.

**7** Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi cyflogaeth a datblygiad sgiliau am oes a gwella cysylltiadau rhwng ysgolion a cholegau a busnesau lleol.

**8** Hyrwyddo cyfleoedd a manteision prentisiaethau i gynorthwyo pobl i gael gwaith ac i weithio i'r Cyngor drwy Gynllun Prentisiaethau'r Cyngor.

**9** Cyflwyno Grant Datblygu Busnes gan alluogi busnesau i wneud cais am gyllid i arloesi, datgarboneiddio a thyfu.

**10** Manteisio i'r eithaf ar botensial cynllun buddsoddi tymor hir 10 mlynedd gwerth £20 miliwn Llywodraeth y DU ar gyfer y Barri a'r dyfarniad Codi'r Gwastad fel rhan o waith adfywio a Chreu Lleoedd i'r dref gyfan.

**11** Manteisio i'r eithaf ar gyllid grant a benthyciadau, gyda chymorth mesurau gorfodi i leihau nifer yr eiddo gwag ar draws pob un o'n pedair canol tref.

**12** Gweithio gyda phartneriaid Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad safle hen Orsaf Bŵer Aberddawan ac Ardal Fenter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd i greu swyddi newydd o ansawdd a chefnogi gwydnwch economaidd.





# AMCAN 3

## CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

### YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Annog pobl o bob oed i ddilyn ffyrdd actif ac iach o fyw sy'n hyrwyddo lles corfforol a meddyliol gwell
- Rhoi mwy o gyfleoedd beicio a cherdded a datblygu ystod o opsiynau teithio i annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir
- Hyrwyddo gweithgareddau hamdden, celfyddydol a diwylliannol sy'n bodloni ystod eang o anghenion
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor
- Rhoi gofal a chymorth i blant a theuluoedd mewn angen sy'n adlewyrchu eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol
- Rhoi gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i oedolion mewn angen
- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cymorth lles emosiynol ac iechyd meddwl amserol a phriodol
- Cyflawni ein dyletswyddau diogelu i amddiffyn pobl rhag niwed
- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cymunedau cydlynol ac i hyrwyddo diogelwch cymunedol
- Cadw pobl yn ddiogel drwy gynllunio cadarn a gwydn at argyfyngau a gwasanaethau rheoliadol sy'n diogelu'r cyhoedd, defnyddwyr a busnesau
- Cynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o safon uchel sydd ar gael drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r angen am dai
- Rhoi cyngor a chymorth tai er mwyn atal digartrefedd

**1** Datblygu a chefnogi mentrau mewn ymateb i'r argyfwng costau byw a'r problemau cysylltiedig o ran tai, costau ynni, tlodi bwyd, tlodi mislif, dyledion a mynediad at fudd-daliadau, cyflogaeth a hyfforddiant.

**2** Gweithio mewn partneriaeth drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fwrw ymlaen â'n gwaith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig gyda rhaglen gychwynnol o ymgysylltu a mapio cymunedol.


**7** Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael ag annhegwch iechyd, hyrwyddo brechu a sgrinio, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyrraedd pobl yn ein cymunedau mwy difreintiedig.

**8** Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella diogelwch cymunedol a diogelu gyda ffocws penodol ar fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein trefi a gweithredu'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol rhanbarthol.

**13** Sicrhau 73 o gartrefi Cyngor newydd yn ardal y Barri yng Ngham 2 Clos Holm View *(31 uned)*, Coldbrook Road East *(20 uned)*, hen Glinig Colcot *(12 uned)* ac Olive Lodge *(10 uned)*, bydd y cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys cartrefi hygyrch/wedi eu haddasu newydd.

**14** Penodi datblygwr i Bartneriaeth Tai Caerdydd a'r Fro er mwyn cyflawni rhaglen datblygu tai y Cyngor yn y tymor hir, bydd hyn yn cynnwys tai i'w gwerthu ar y farchnad agored i gynhyrchu incwm ychwanegol i gefnogi datblygiad safleoedd newydd.

> "Rydym yn Gyngor rhagweithiol sy'n gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o les corfforol a meddwl pobl i sicrhau eu bod yn ddiogel gartref ac yn y gymuned ac y gallant wneud dewisiadau sy'n cefnogi eu lles cyffredinol. Rydym yn Gyngor sy'n sicrhau y caiff pobl y cyngor, gofal a chymorth angenrheidiol yn ôl yr angen."



# YN 2024/25 BYDDWN YN:

**3** Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r gwaith o gwmpas ysgolion bro gan gydnabod rôl bwysig ysgolion yn y gymuned leol a'r potensial i adeiladu ar fentrau llwyddiannus gan gynnwys y model Bocs Bwyd Mawr.

**4** Gweithio gyda sefydliadau a chymunedau lleol i helpu i gynnal cyfleusterau lleol er enghraifft, meysydd chwaraeon, neuaddau cymunedol, parciau, rhandiroedd a chyfleusterau cyhoeddus, gan drosglwyddo perchnogaeth lle bo hynny'n briodol a galluogi mynediad at gyllid fel Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU.

**5** Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu hamdden, chwarae a chwaraeon a gweithredu Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach Caerdydd a'r Fro, gan ganolbwyntio'n benodol ar waith mewn ysgolion ac iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc.

**6** Gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden drwy fuddsoddi yn ein canolfannau hamdden a'n safleoedd hamdden awyr agored mawr fel Canolfan Chwaraeon y Barri a chaeau chwarae Butrills.

**9** Gweithio'n rhanbarthol fel rhan o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles economaidd defnyddwyr, busnesau a thrigolion drwy ein gwaith ar iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a thrwyddedu fel y manylir yng nghynllun busnes GRhR.

**10** Gweithredu'r Polisi Byw'n Annibynnol newydd a Grant Addasiadau Disgresiynol newydd i gefnogi pobl i fyw'n dda yn eu cartrefi eu hunain.

**11** Gweithio ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat i wella nifer yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag dod yn ddigartref a darparu ymyriadau effeithiol ar gyfer pobl Ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

**12** Gweithredu Strategaeth Dai Leol i fynd i'r afael â'r angen tai cyfredol ac arfaethedig ac i gynyddu nifer y tai hygyrch a fforddiadwy o ansawdd da sydd ar gael.

**15** Adsefydlu aelwydydd bregus iym Mro Morgannwg a darparu'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan gynnwys bwrw ymlaen â safle Eagleswell Road yn Llanilltud Fawr.

**16** Datblygu ein gwaith fel Sir Noddfa i ddarparu cefnogaeth, urddas a chroeso i drigolion y Fro, heddiw ac yfory.

**17** Cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn benodol trwy gyflawni prosiect integreiddio digidol i rannu data a deallusrwydd.

**18** Datblygu a gweithredu Model Cynghrair y Fro i ddarparu gofal mwy integredig.

**19** Parhau i ehangu 'Eich Dewis' i wella llais a rheolaeth yr unigolyn drosei ofal yn eu cartrefi eu hunain.

**20** Gweithio'n gydgynhyrchiol gyda phlant a'u teuluoedd drwy fodel / cynllun sy'n seiliedig ar gryfderau, i rymuso a gwella canlyniadau a lles.

**21** Datblygu llety ychwanegol yn y Fro i gefnogi ein plant sy'n derbyn gofal i'w galluogi i aros yn yr ardal.

**22** Sefydlu grŵp gweithredu diogelu lleol i wella trefniadau i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o esgeulustod, camdriniaeth a chamfanteisio yn y Fro.



# AMCAN 4

## PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD


### YMRWYMIADAU EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL YW:

- Gweithio i leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net cyn 2030 ac annog eraill i'n dilyn yn rhan o'r gwaith o leihau'r effaith negyddol y caiff ein gweithgareddau ar yr amgylchedd
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill a'u grymuso i gynnal cyfleusterau lleol gan gynnwys tai bach cyhoeddus, llyfrgelloedd, parciau, ardaloedd chwarae a chanolfannau cymunedol
- Diogelu, cadw a, lle y bo'n bosibl, wella ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol
- Gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid i sicrhau bod yr amgylchedd lleol yn lân, yn ddeniadol ac yn cael ei reoli'n dda
- Gweithio gyda'r gymuned, datblygwyr ac eraill i sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy a bod datblygwyr yn lliniaru eu heffeithiau, yn integreiddio â chymunedau lleol ac yn darparu'r seilwaith angenrheidiol
- Darparu gwasanaethau rheoli gwastraff effeithiol a gweithio gyda'n trigolion, ein partneriaid a busnesau i leihau gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd
- Lleihau llygredd gan gydnabod yr effaith andwyol y gallai ei gael ar yr amgylchedd ac ar les pobl
- Gweithio i leihau effaith erydu, llifogydd a llygredd ar ein hardaloedd arfordirol a chyrsiau dŵr

> “Rydym yn Gyngor sy'n pennu safonau uchelgeisiol i'n hunain, ein partneriaid a'n cymunedau. Deallwn sut mae ein hamgylchedd yn cyfrannu at les unigol, cymunedol a byd-eang ac rydym wedi ymrwymoi ddiogelu a gwella ein hamgylchedd i sicrhau y gallwn fod yn falch o'r etifeddiaeth a adawn i genedlaethau'r dyfodol.”



**1** Gweithredu Prosiect Sero ein Cynllun Her Newid Hinsawdd, a gweithio gyda'r gymuned a rhanddeiliaid eraill i leihau allyriadau carbon, gan ganolbwyntio gwaith ar gaffael, defnydd ynni, tai, trafnidiaeth, tir a bwyd, a sicrhau bod ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn rhan annatod o bob penderfyniad.



**6** Datblygu ein hymgyrch 'balchder yn ein cymuned' a gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill i ofalu am yr amgylchedd, lleihau sbwriel a chynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau amgylcheddol e.e. drwy fannau tyfu.



**11** Gweithredu Cynllun Arwynebau Ffyrdd (2022-25) i gynorthwyo i gynnal cyflwr y briffordd i ddefnyddwyr gan gynnwys bysiau, cerddwyr a beicwyr.







# YN 2024/25 BYDDWN YN:

**2** Gweithio gyda'n partneriaid i ymateb i'r argyfwng natur gan gynnwys datblygu a gweithredu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd newydd, Strategaeth Goed, annog gwelliannau i fioamrywiaeth ar bob datblygiad a chyflawni'r Blaengynllun Bioamrywiaeth.

**3** Bwrw ymlaen â'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor gyda ffocws ar asesu safleoedd ymgeisiol, Strategaeth a Ffefrir a pharatoi drafft ar adnau o'r cynllun newydd yn dilyn ymgynghoriad, a chan gynnwys ystyried canfyddiadau adroddiad arbenigol ar yr ymarferoldeb o ofyn i bob annedd newydd fod yn **ddi-garbon.**

**4** Parhau i sicrhau bod taliadau Adran 106 gan ddatblygwyr yn cael eu trafod mewn meysydd lle cymeradwyir datblygiad a sicrhau ein bod yn sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol mewn addysg, trafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, y celfyddydau a diwylliant ac yn herio datblygwyr trwy broses gyfreithiol pan nad yw datblygwyr yn cyflawni ymrwymiadau i'r gymuned.

**5** Cyfrannu at Strategaeth Gwastraff Genedlaethol **'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'** Llywodraeth Cymru gyda mwy o ffocws ar yr economi gylchol, ailgylchu ac ailddefnyddio a chyrraedd y targed ailgylchu statudol o ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o wastraff trwy ddarparu gwasanaethau ac ymgysylltu effeithiol.

**7** Annog a chefnogi newidiadau i'r ffordd y mae pobl yn teithio drwy gynyddu cyfleoedd teithio llesol (cerdded a beicio) gan gynnwys adolygu sut y gallwn newid defnydd ffyrdd i greu mwy o lonydd beicio.

**8** Hwyluso a chefnogi cynnydd yn y rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan lleol gan gynnwys ym meysydd parcio'r Cyngor.

**9** Cynorthwyo'r Gwasanaeth Trafnidiaeth Cymunedol Greenlinks presennol a thrafnidiaeth gymunedol arall yn y Fro drwy weithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) i gytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer defnyddio cerbydau tacsi trydan a fyddai'n cael eu darparu i'r Cyngor gan P-RC.

**10** Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid eraill i helpu i sicrhau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol amserol o ansawdd uchel yng nghyd-destun cyllidebau cenedlaethol sy'n lleihau.

**12** Datblygu mwy o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer fflyd cerbydau'r Cyngor a staff gan gynnwys cynlluniau beicio i'r gwaith a defnyddio e-feiciau, cerbydau trydan, hybrid a thanwydd amgen, a gweithredu'r Siarter Teithio Iach.

**13** Gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaid i ddatblygu a gweithredu Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) y Fro i helpu i lywio system ynni yn y dyfodol.

**14** Buddsoddi mewn mesurau lleihau carbon ar draws ein hasedau adeiledig gan gynnwys yr ystâd ysgolion gyda'r defnydd parhaus o Salix a chyfleoedd grant eraill fel Grant Gwres Carbon Isel.

**15** Cynnydd yn y gwaith i leihau effaith amgylcheddol ein stoc dai drwy sicrhau bod pob gwaith adeiladu tai cyngor newydd yn cyflawni isafswm sgôr o A ar gyfer perfformiad ynni ac yn bodloni safonau newydd WHQS 23 tra'n ôl-osod stoc tai bresennol y cyngor drwy ddefnyddio dull 'ffabrig yn gyntaf' a defnyddio technoleg briodol i wella effeithlonrwydd thermol.

**16** Cynhyrchu a gweithredu Strategaeth Perygl Llifogydd a gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o lifogydd i ddatblygu atebion lleol.

**17** Cynnal asesiadau ansawdd aer lleol a chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn parhau i gael eu cyflawni.

# CYFLAWNI A MONITRO'R CYNLLUN


Adlewyrchir camau gweithredu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yng **Nghynlluniau Gwasanaeth y Cyngor** sy'n dangos sut y bydd pob adran Cyngor yn gweithio i gyfrannu at ein Hamcanion Lles. Mae cyfres o fesurau perfformiad ar waith i helpu i ddangos cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Lles.

Caiff gwaith y Cyngor ar y Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n rheolaidd drwy asesu cynnydd yn erbyn ein gweithredoedd a'n dangosyddion perfformiad er mwyn galluogi cynghorwyr i graffu ar gynnydd a'i oruchwylio. Adroddir ar hyn i'r Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet bob chwarter. Defnyddir Cynlluniau Gwasanaeth hefyd i ddatblygu Cynlluniau Tîm ac i lywio ein gwerthusiadau staff drwy'r broses #AmdanaFi.

Mae'r Broses Asesu Flynyddol hefyd yn sicrhau ein bod yn adolygu ac yn herio ein perfformiad a'n blaenoriaethau i ddeall lle mae angen gwelliannau a chofleidio cyfleoedd ar gyfer dysgu a rennir.

Mae'r diagram isod yn dangos sut mae popeth yn cyd-fynd â'i gilydd gan sicrhau ein bod yn parhau i adolygu, monitro, myfyrio, cynnwys, adolygu ac adrodd.

## SUT MAE'R CYFAN YN DOD AT EI GILYDD




Rydym yn cyhoeddi'r holl wybodaeth am ein Cynllun Corfforaethol, ein Cynllun Cyflawni Blynyddol a'n hadroddiadau perfformiad eraill ar ein gwefan **www.bromorgannwg.gov.uk.** Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn ein swyddfeydd a'n llyfrgelloedd.

# CYMRYD RHAN

Rydym yn annog cynifer o bobl â phosibl i ddylanwadu ar a llywio penderfyniadau yn y Cyngor, yn enwedig y rheini o grwpiau nas clywir yn aml. Rydym yn ymdrechu i fod yn amrywiol yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu ac yn cysylltu â gwahanol grwpiau, ac rydym yn ceisio eu bodloni ar eu telerau nhw. Mae preswylwyr sydd wedi ymuno â'n platfform ymgysylltu, **Cymryd Rhan,** yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i ymgysylltu ag amrywiaeth o brosiectau. Felly hefyd y rhai sy'n dilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn mynychu digwyddiadau ac yn defnyddio ein gwasanaethau'n bersonol. Rydym yn ystyried eu hadborth ac yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw yn y penderfyniadau a wnawn o ganlyniad i'w mewnbwn, ac yn rhoi gwybod iddynt sut y gwnaed y penderfyniadau hynny.

Mae ein Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac maent yn rhoi cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais i Bwyllgor ystyried gwasanaeth neu fater drwy gwblhau **ffurflen.** Gallwch hefyd gofrestru i siarad mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu drwy ddilyn y wybodaeth ar **wefan** y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am Bwyllgorau Craffu'r Cyngor a sut y gallwch gymryd rhan ar gael *yma.*

**Rydym yn croesawu adborth am ein gwaith a gallwch gysylltu â ni yn:**

Grŵp Cynghori Strategaeth a Dealltwriaeth, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri. CF63 4RU

01446 700111

E-bost: improvements@valeofglamorgan.gov.uk

# RHESTR TERMAU

**Bioamrywiaeth** - Mae bioamrywiaeth yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth enfawr o fywyd ar y Ddaear. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bob peth byw, gan gynnwys planhigion, bacteria, anifeiliaid a phobl.

**Blaengynllun Bioamrywiaeth** - Mae'r Blaengynllun Bioamrywiaeth yn edrych ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwella adnoddau naturiol i sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob gwasanaeth a'u bod yn themâu craidd wrth ddarparu gwasanaethau, gan ddod yn rhan annatod o'r prosesau gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r Cyngor.

**Ffabrig yn Gyntaf** - Mae'r ymagwedd ffabrig cyntaf yn cynnwys ystyried dyluniad ac adeiladwaith amlen yr adeilad yn ofalus er mwyn lleihau defnydd ynni'r cartref. Yn syml - mae'n creu adeilad aerglos, wedi'i inswleiddio sy'n lleihau faint o ynni sydd ei angen i gynhesu'r cartref. Mae'n blaenoriaethu perfformiad ffabrig yr adeilad.

**Sir Noddfa** - Mae dod yn Gyngor Sir Noddfa yn ymwneud â gwella canlyniadau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches drwy ddarparu amgylchedd croesawgar, herio gwahaniaethu a chanfyddiadau negyddol a sicrhau cyfle cyfartal.
Gall unigolion ym Mro Morgannwg hefyd wynebu bwlio, aflonyddu a bygwth oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig megis hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu gred grefyddol, ac mae gwerthoedd, nodau ac amcanion sylfaenol bod yn Sir Noddfa yr un mor berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n byw ym Mro Morgannwg. Dylent hefyd gael mynediad at noddfa neu loches rhag gormes, erledigaeth neu beryglon eraill.
Felly, penderfynodd y Cyngor ddod yn aelod o rwydwaith Awdurdodau Lleol Dinas Noddfa a gweithio tuag at achrediad fel Cyngor Sir Noddfa i bawb, ac i ddefnyddio ei lwyfannau i groesawu a hyrwyddo cynhwysiant ar draws y gymuned leol ehangach.

**Strategaeth Seilwaith Gwyrdd** - Seilwaith Gwyrdd - Mannau gwyrdd, pridd, llystyfiant a dŵr sy'n creu'r gwasanaethau ecosystem sy'n gwneud lleoedd yn well i fyw ynddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, coed stryd, toeau a waliau gwyrdd, mannau chwarae naturiol, gerddi bywyd gwyllt/natur, coridorau peillwyr, gwaith tirlunio, systemau draenio ac atebion rheoli ansawdd aer.

**Cynllun Datblygu Lleol** - Y Cynllun Datblygu Statudol y mae'n rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru ei weithredu dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'r Cynllun yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy yn yr ardal.

**Deddf Llywodraeth Leol** - Nododd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ddarpariaeth ar gyfer creu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, perfformiad a llywodraethu.

**Carbon Sero-net** - Mae sero-net yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng swm y carbon a gynhyrchir a'r swm a dynnir o'r atmosffer. Rydym yn cyflawni sero-net pan nad yw'r swm a ychwanegwn yn fwy na'r swm a gymerir i ffwrdd.

**Rhaglenni Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** - Rhaglen Adran Dai sy'n defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i ehangu gwybodaeth a gwella gallu contractwyr lleol o ran gwasanaethau gwresogi gwyrdd i ddatgarboneiddio'r farchnad gwresogi domestig a darparu tai cynaliadwy gyda sgôr targed TPY o A.

**Prosiect Sero** - Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng newid hinsawdd, gan ddwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, i leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero-net erbyn 2030 ac i annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** - Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae **Ein Bro - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg** yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg i weithio mewn partneriaeth er dyfodol gwell.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** - Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn cynnwys Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol a chynrychiolwyr gofalwyr. Y nod yw gwella iechyd a lles y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu drwy sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir, ar yr adeg iawn, yn y lle iawn.

**Adran 106** - Mae Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ymrwymo i gytundeb sy'n gyfreithiol rwymol i sicrhau rhwymedigaethau cynllunio gyda thirfeddiannwr yn rhan o roi caniatâd cynllunio. Ceir mwy o wybodaeth am gytundebau Adran 106 yn y Fro **yma.**

**Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** - Mae'r **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir** yn bartneriaeth rhwng Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth yn gwbl integredig dan un strwythur rheoli ar gyfer swyddogaethau iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnach gyda threfniadau llywodraethu a rennir, sy'n sicrhau y caiff pob aelod etholedig ei gynnwys yn llawn.

**Model sy'n Seiliedig ar Gryfderau** - Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn broses gydweithredol rhwng yr unigolyn a gefnogir gan wasanaethau a'r rheini sy'n ei gefnogi, sy'n eu galluogi i gydweithio i bennu canlyniad sy'n defnyddio cryfderau ac asedau'r unigolyn.

**Cynghrair y Fro** - Mae Cynghrair y Fro yn brosiect sydd â'r nod o ddod â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd at ei gilydd i roi cymorth mwy di-dor i'n trigolion.

**Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** - Mae yna fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol.

# Gweithio gyda'n Gilydd am Ddyfodol Disgleiriach

## Am ragor o wybodaeth…

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

www.bromorgannwg.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG
Cyngor Bro Morgannwg